2009 RHIF 2

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Cyfarwyddiadau i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru 2009

Gwnaed	*2009*
Yn dod i rym	*2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 59(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru 2009.

(2) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Rhoddir y Cyfarwyddiadau hyn i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Cyfarwyddiadau hyn—

ystyr "y Comisiwn" (*"the Commission"*) yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru; ac

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Adrannau Amlaelod

3. Yn unol â pharagraff 1A(3) o Atodlen 11 i'r Ddeddf(**3**) mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo bod yn rhaid i'r Comisiwn ystyried pa mor ddymunol fyddai adrannau etholiadol amlaelod ym mhob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol(**4**) yn y prif ardaloedd yng Nghymru a grybwyllir yn adran 20, Atodlen 4 i'r Ddeddf.

---

(1) 1972 p.70.

(2) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a pharagraff 30 (1) a (2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(3) Fel y'i mewnosodwyd gan adran 7(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1994.

(4) Fel y cyfeirir atynt yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, adran 20, Atodlen 4, a amnewidir gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, adran 1(2), Atodlen 1, paragraff 2.

Adolygu trefniadau etholiadol

4. Yn unol ag adran 59(1) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru'n rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn i'r Comisiwn er mwyn ei gyfarwyddo yn y gwaith o adolygu trefniadau etholiadol y mae'n ofynnol o dan adran 55 o'r Ddeddf iddo ei wneud —

(a) Ystyrir bod angen isafswm o 30 o gynghorwyr ar gyfer rheoli'n briodol fusnes cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

(b) Ystyrir bod angen uchafswm o 75 o gynghorwyr fel arfer i reoli'n briodol fusnes cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, fel y byddo'r risg o gael cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol anhylaw ac anodd ei drin mor fach â phosibl;

(c) Ystyrir y dylid amcanu at gael adrannau etholiadol â chymhareb cynghorwyr i etholwyr nad yw'n llai na 1:1750;

(ch) Ystyrir na ddylid penderfynu newid patrwm presennol adrannau amlaelod ac adrannau un aelod yn yr ardaloedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 3 o'r Cyfarwyddiadau hyn ond pan gefnogir y cyfryw gynigion yn gyffredinol gan yr etholwyr, i'r graddau y gellir gwybod safbwyntiau'r etholwyr er mwyn bodloni'r gofyniad am ymgynghori a geir yn adran 60 o'r Ddeddf;

(d) Ystyrir bod yn rhaid i'r Comisiwn, pan fydd yn cynnal adolygiadau o dan Ran 4 o'r Ddeddf, gydymffurfio â pharagraff 1A o Atodlen 11 i'r Ddeddf ac â'r Cyfarwyddiadau hyn.

Adroddiadau ar adolygu trefniadau etholiadol

5. Yn unol ag adran 58(1) o'r Ddeddf mae Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo bod yn rhaid cyflwyno i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin 2011 adroddiadau a baratowyd gan y Comisiwn mewn cysylltiad ag adolygu trefniadau etholiadol mewn perthynas â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref lleol yng Nghymru .

Llofnodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

Dyddiad 13/11 2009